Dogfen hawdd ei deall

# Y cynllun 5-mlynedd ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn Rhondda Cynon Taf

**2024 to 2030**




Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'n fersiwn hawdd ei deall o'r **'Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn Rhondda Cynon Taf 2024-2030' (Drafft)**

**Mehefin 2024**



Mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i greu **Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion**newydd ar gyfer Rhondda Cynon Taf.




Cynllun yw strategaeth.




Bydd y Strategaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn helpu ein hoedolion, eu teuluoedd, gwarcheidwaid, a'n staff i wybod beth i'w ddisgwyl o ran gofal cymdeithasol i oedolion dros y 5 mlynedd nesaf.




Yn y ddogfen hawdd ei deall yma, byddwch chi'n gweld prif bwyntiau'r strategaeth a sut y byddwn ni'n cyflawni ein gweledigaeth.

Yn y ddogfen yma mae'r gair **ni**yn golygu **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.**

# Beth yw Gofal Cymdeithasol i Oedolion?



Mae **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** yn helpu oedolion sydd angen gofal a chymorth.




Mae gofal cymdeithasol i oedolion yn effeithio ar fywydau oedolion o bob oed sydd â phob math o anghenion (gan gynnwys anabledd dysgu, anabledd corfforol, ac iechyd meddwl).



Gall pobl fod angen gofal a chymorth i oedolion mewn gwahanol ffyrdd neu ar wahanol adegau yn eu bywyd.



Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn cael ei roi mewn sawl ffordd wahanol, er enghraifft y Cyngor, darparwyr gofal cymdeithasol, yn y gymuned, neu gan deulu a ffrindiau.



Rôl y cyngor yw bod yn gefn i bobl fyw bywyd iach ac annibynnol.

# Beth yw Gofal Cymdeithasol i Oedolion?



Rydyn ni'n gyfrifol am ofalu bod pobl yn cael dewis sut maen nhw'n cael cymorth.




**Yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014** mae'r manylion am beth ddylai'r Cyngor ei wneud i wella lles pobl sydd angen gofal a chymorth.



Ffyrdd o feddwl ac ymddwyn yw egwyddorion.

Egwyddorion y Ddeddf yw:



**Llais a rheolaeth** – rhoi llais a rheolaeth i'r person fel y gall pawb ddewis yr hyn sydd orau ar gyfer eu lles nhw.

# Beth yw Gofal Cymdeithasol i Oedolion?



**Atal ac ymyrryd yn gynnar** – bod â rhagor o wasanaethau yn y gymuned er mwyn lleihau'r cynnydd mewn angen argyfyngus.




**Lles**– bod yn gefn i bobl fel y gallan nhw sicrhau eu lles eu hunain a mesur llwyddiant gwasanaethau gofal a chymorth.



**Cyd-gynhyrchu** – annog unigolion i chwarae rhan fwy amlwg yn y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflwyno.



Drwy'r strategaeth yma rydyn ni eisiau helpu pobl i gadw'n iach, hapus ac annibynnol gan ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

# Gwybodaeth am Rondda Cynon Taf



Mae niferoedd y bobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf yn newid.



Mae 46,790 o'r bobl sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf dros 65 oed.



Erbyn 2030 bydd hyd yn oed rhagor o bobl dros 65 oed na sydd nawr.



Mae hyn yn golygu y bydd angen gofal a chymorth ar ragor o bobl  dros amser.



Fe fydd llawer rhagor o bobl hŷn yn Rhondda Cynon Taf a fydd yn dlawd, unig, ac yn agored i niwed.

# Gwybodaeth am Rondda Cynon Taf



Dros y 10 mlynedd nesaf, fe fydd rhagor o bobl yn byw gyda dementia.



Mae yna hefyd lawer o bobl sydd ag iechyd gwael, anableddau dysgu ac anhawsterau cam-ddefnyddio sylweddau.



Mae llawer rhagor o bobl â chyflyrrau cronig fel asthma a diabetes yn Rhondda Cynon Taf na'r cyfartaledd cyffredinol yng Nghymru.



Ar gyfartaledd dyw pobl ddim yn byw mor hen yn Rhondda Cynon Taf o'i gymharu â phob ardal arall yng Nghymru.

# Gwybodaeth am Rondda Cynon Taf




Mae prinder cenedlaethol o gynhalwyr (gofalwyr ydy enw arall ar eu cyfer nhw) gan fod nifer gynyddol o bobl yn dewis swyddi eraill.



Mae costau darparu gwasanaethau wedi cynyddu dros y blynyddoedd, felly mae'n rhaid i ni wneud pethau mewn ffordd wahanol.



Er mwyn rhoi gofal a chymorth mewn ffyrdd newydd ar gyfer y dyfodol, bydd rhaid i ni fod yn greadigol o ran y ffordd rydyn ni'n bod yn gefn i bobl.



Bydd gofyn i ni weithio gyda'n partneriaid mewn sefydliadau eraill yn ein cymunedau, i weld a allwn ni wneud rhywbeth gwell gyda'n gilydd.

# Gwybodaeth am Rondda Cynon Taf



Fe fyddwn ni'n gwrando'n ofalus er mwyn deall be sy'n gweithio i bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a beth sydd ddim.

# Ein Gweledigaeth



Trwy'n gweledigaeth rydyn ni'n rhoi gwybod i bobl Rhondda Cynon Taf sut rydym ni am i wasanaethau gofal cymdeithasol fod yn y dyfodol a'r pethau rydyn ni am eu cyflawni.



Ein gweledigaeth yw, gweledigaeth Cyngor cyfan ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion.



***'Mae pob person yn Rhondda Cynon Taf y mae angen gofal a chymorth arnyn nhw, yn cael eu grymuso i fyw mewn man maen nhw'n gallu ei alw'n gartref, gyda phobl sy'n bwysig iddyn nhw, mewn cymunedau gofalgar lle mae pobl i'w gilydd, yn gwneud pethau sy'n bwysig iddyn nhw.***




Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r gymuned fod yn le da i fod ynddo, gyda phopeth sydd ei angen arnoch chi i fyw bywyd da.

# Ein Gweledigaeth




Mae'n gwerthoedd yn bwysig i'n gweledigaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn Rhondda Cynon Taf



Maen nhw'n ddisgrifiad o pwy ydyn ni, a'r hyn y dylai pobl ei ddisgwyl o ran gofal cymdeithasol i oedolion yn Rhondda Cynon Taf.

Dyma'n gwerthoedd:



**Bod yn agored, yn onest ac yn sefydliad y mae modd ymddiried ynddo**




**Trin pobl yn deg**



**Gwario arian yn ddoeth**

# Ein Gweledigaeth




**Gweithio gyda'n gilydd**




**Gweithio gyda Chymunedau**

# Ein Deilliannau




Mae'n deilliannau yn ddiffiniad o'r hyn rydyn ni'n gweithio i'w gyflawni ar gyfer pobl Rhondda Cynon Taf er mwyn iddyn nhw fyw eu bywyd gorau.

Rydyn ni'n gwybod ein bod ni wedi cyflawni ein deilliannau pan rydych chi'n gallu cytuno â'r datganiadau yma:




Rydw i'n gallu cael gafael ar wybodaeth a chyngor sy'n gywir ac yn gyfredol ac sydd wedi'u cyflwyno i mi mewn ffordd rydw i'n ei ddeall.



Rydw i'n gwybod am y gweithgareddau, y grwpiau cymdeithasol, y cyfleoedd hamdden a dysgu yn fy nghymuned, yn ogystal â'r gwasanaethau iechyd a gofal.




Rydw i'n teimlo'r croeso yn fy nghymuned leol ac rwy'n teimlo'n ddiogel ynddi, ac mae modd i mi ymuno â bywyd cymunedol a gweithgareddau sy'n bwysig i mi.




Mae pobl sy'n gweld pethau o fy safbwynt i yn fy nghefnogi i wneud penderfyniadau gan ystyried yr hyn sy'n bwysig i mi, fy lles a fy iechyd.

# Ein Deilliannau




Mae'r gofal a'r cymorth rydw i'n eu cael yn gydlynus, ac mae pawb yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gyda mi.

Mae'r gofal a'r cymorth rydw i'n eu cael yn fy ngalluogi i fyw fel rydw i'n dymuno, sy'n golygu fy mod yn cael fy ngweld fel person unigryw gyda sgiliau, cryfderau a nodau personol.




Pan rwy'n symud rhwng gwasanaethau, lleoliadau neu ardaloedd, mae cynllun ar gyfer yr hyn sy'n digwydd nesaf a phwy fydd yn gwneud beth, ac mae'r holl drefniadau ymarferol ar waith cyn i'r newid ddigwydd.



Rwy'n gallu byw'r bywyd rydw i ei eisiau ac rwy'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig i mi mewn modd mor annibynnol â phosibl.



Rydw i'n teimlo'n ddiogel a fy mod yn cael fy nghefnogi i ddeall a rheoli unrhyw risgiau.

# Crynodeb

## Model o ofal a chymorth



Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, fe fyddwn ni'n cyflwyno model ar gyfer cymorth.

Y model ar gyfer cymorth yw sut y byddwn ni'n bod yn gefn i bobl fyw bywyd da:



Byddwn ni'n:

**Annog pobl i helpu eu hunain:**



**Rhoi cymorth i bobl pan maen nhw'n dweud bod angen cymorth arnyn nhw:**



**Gefn i bobl fyw bywyd da.**



Nodau'r model yw sicrhau bod pobl yn:

- Cael yr oriau o gymorth y mae eu hangen arnyn nhw
- Cael cymorth ar yr amser cywir

# Crynodeb

• Dod yn llai dibynnol ar gymorth hir-dymor pan fo hynny'n bosib

## Pum nod ein Cynllun




Ein 5 nod ar gyfer ein strategaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf:



**1.** Bod yn gefn i bobl gadw'n iach a byw mor annibynnol â phosib fel na fydd rhaid iddyn nhw ddod yn ôl i gael rhagor o gynhorthwy.



**2.** Helpu pobl dros y tymor byr er mwyn iddyn nhw adfer eu hiechyd a dod yn annibynnol eto wedi salwch neu greisis.



**3.** Gofalu bod pobl yn cael yr help a'r cymorth yn y lle ac ar yr adeg sydd orau iddyn nhw.



**4.** Gofalu bod pobl yn cael y cymorth cywir gan bobl sydd wedi'u hyfforddi'n gywir ac sy'n meddu ar y sgiliau cywir.

# Crynodeb



**5.** Gofalu bod dewis o ofal a chymorth da ledled Rhondda Cynon Taf gyda phrofiadau pobl a gwella ansawdd yn ganolog i'r cyfan.

[Cyrraedd Nodau ein Cynllun]




**Fe fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi cyrraedd nodau ein strategaeth pan fydd pobl yn gallu cytuno â'r datganiadau canlynol:**




Rydw i'n gallu cael gafael ar wybodaeth sy'n gywir ac yn hawdd ei deall.



Rydw i'n gwybod am y gweithgareddau, y grwpiau cymdeithasol, y cyfleoedd hamdden a dysgu yn fy nghymuned, yn ogystal â'r gwasanaethau iechyd a gofal.




Rydw i'n teimlo'r croeso yn fy nghymuned leol ac rwy'n teimlo'n ddiogel ynddi, ac mae modd i mi ymuno

# Crynodeb

â bywyd cymunedol a gweithgareddau sy’n bwysig i mi.



Mae pobl sy’n gweld pethau o fy safbwynt i yn fy nghefnogi i wneud penderfyniadau gan ystyried yr hyn sy’n bwysig i mi, fy lles a fy iechyd.



Mae'r gofal a'r cymorth rwy'n eu cael yn hawdd eu rheoli, ac mae pawb yn gweithio'n dda gyda'i gilydd a gyda mi.



Mae'r gofal a'r cymorth rwy'n eu cael yn fy helpu i fyw yn y ffordd rydw i am fyw; gyda phethau rwyf am eu cyflawni.




Pan rwy'n symud rhwng gwasanaethau, lleoliadau neu ardaloedd, mae cynllun ar gyfer yr hyn sy’n digwydd nesaf a phwy fydd yn gwneud beth, ac mae’r holl drefniadau ymarferol ar waith cyn i'r newid ddigwydd.

# Crynodeb



Rwy'n gallu byw’r bywyd rydw i ei eisiau ac rwy'n gallu gwneud y pethau sy’n bwysig i mi mewn modd mor annibynnol â phosibl.



Rydw i’n teimlo’n ddiogel a fy mod yn cael fy nghefnogi i ddeall a rheoli unrhyw risgiau.